Taflen Esboniadol

y GIG yng Nghymru

1.0 Cyflwyniad

Mae eich sefydliad yn dal trwydded â'r Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint Cyf (CLA) sy'n caniatáu i chi wneud copïau o ddetholiadau o lyfrau, newyddiaduron a chyfnodolion a gyhoeddwyd mewn print ac o gyhoeddiadau digidol dethol, yn amodol ar delerau ac amodau penodol. Gellir gwneud copïau o gyhoeddiadau gan gynnwys y rheini yr ydych chi'n tanysgrifio iddynt ac o erthyglau neu doriadau o'r wasg a ddarperir gan gyflenwyr allanol trwyddedig (e.e. asiantaeth cysylltiadau cyhoeddus neu doriadau o'r wasg neu'r Llyfrgell Brydeinig) lle mae ffi hawlfraint wedi'i dalu.

Bwriedir i'r canllawiau hyn eich helpu chi i gydymffurfio â thelerau'r drwydded.

Mae'r drwydded yn cwmpasu:

- Llungopïo
- Sganio
- Copïo cynnwys digidol e.e. dogfennau PDF o danysgrifiadau electronig neu erthyglau wedi'u sganio a gaiff eu cylchredeg drwy ebost - hynny yw, digidol-i-ddigidol, digidol-i-brint, a phrint-i-ddigidol-i-brint.

Pa gyhoeddiadau?

- Llyfrau
- Cylchgronau
- Y Wasg Fasnachol
- Newyddiaduron
- Copïau â'r ffi hawlfraint wedi'i dalu
- Cyfnodolion
- Adroddiadau cyfreithiol
- Cyfrolau cyfeirio
- Toriadau o'r wasg a geir gan asiantaeth toriadau'r wasg
- Rhai fersiynau digidol o'r uchod (gweler cyhoeddiadau Digidol isod) a dogfennau digidol gwreiddiol eraill

Mae'r canlynol yn enghreifftiau cyffredin lle gallai fod angen i chi wneud a dosbarthu copïau yn fewnol o fewn eich corff:

- Er mwyn rhannu gyda chydweithwyr mewn cyfarfodydd neu sesiynau briffio
- I bwrpas hyfforddiant mewnol e.e. Clybiau Cyfnodolion, sesiynau addysgu nyrsio, myfyrwyr ar leoliad etc
- Gwybodaeth am salwch, cyflwr neu driniaeth er budd claf
- Ymwybyddiaeth Iechyd a Diogelwch neu Amgylcheddol
- Ar gyfer ymchwil a datblygu

2.0 Gofyniad i Berchnogi'r Gwaith Gwreiddiol

Dylai eich sefydliad fod wedi talu am, neu fod yn berchen ar fersiwn gwreiddiol o unrhyw waith a gaiff ei gopïo. Hynny yw, dylai'r GIG yng Nghymru naill ai fod yn tanysgrifio i'r cyfnodolyn neu'r cyhoeddiad ar-lein sy'n cael ei gopïo, neu fod wedi tanysgrifio am y cyfnod sy'n cael ei gwmpasu gan y rhifyn sy'n cael ei gopïo, neu fod wedi prynu'r llyfr neu'r cyhoeddiad all-lein, neu fod y cyfnodolyn wedi'i gyflwyno iddo - er enghraifft yn achos cylchgrawn â chylchrediad rheoledig.

Yn gyffredinol gallwch gopïo deunydd:

- sydd wedi'i bwrcasu gan eich sefydliad fel rhan o danysgrifiad cyfredol neu yn y gorffennol

- sydd wedi'i dderbyn oddi wrth asiantaethau Toriadau'r Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus (fodd bynnag mae cynnwys papur newydd wedi'i eithrio)
- sydd wedi'i gyflenwi gan gyflenwr dogfennau trwyddedig trydydd parti, gyda ffi hawlfraint wedi'i dalu
- sydd wedi'i gyflenwi gan Ddarparwr gwasanaeth Llyfrgell: unrhyw sefydliad sydd dan gontract i'r GIG yng Nghymru i ddarparu gwasanaethau llyfrgell ar gyfer, ac at ddibenion y GIG yng Nghymru
- nid yw'r drwydded hon yn caniatáu i chi gopïo o danysgrifiadau personol unrhyw unigolyn cyflogedig oni bai bod yr unigolyn cyflogedig yn rhoi'r copi'n barhaol i'ch sefydliad.

3.0 Faint y gellir ei gopïo?

Ar bob achlysur gallwch gopïo hyd at 5% neu bennod unigol o lyfr neu hyd at ddwy erthygl o gyfnodolyn, pa bynnag un sydd fwyaf.

Canllawiau penodol ar gyfer copïo:

Math o Ddeunydd	Canllawiau Copïo
Cylchgronau, Newyddiaduron a Chyfnodolion	Cewch gopïo hyd at ddwy erthygl o unrhyw un rhifyn, neu os yw'r rhifyn neu ran helaeth ohono'n ymwneud ag un thema benodol, unrhyw nifer o erthyglau sy'n ymwneud â'r thema benodol honno
Llyfrau	Cewch gopïo hyd at un bennod o lyfr
Adroddiadau'r Gyfraith	Cewch gopïo adroddiad cyfan un achos
Newyddiaduron Crynodebau	Cewch gopïo ar yr amod nad yw dros bump y cant o'r rhifyn
Tudalennau llythyrau	Dylech drin llythyr fel erthygl ac felly cewch gopïo hyd at ddau lythyr o bob rhifyn

4.0 Pwy sydd â'r hawl i gopïo a/neu dderbyn copïau?

- Mae gan unrhyw unigolyn a Awdurdodir gan GIG Cymru (gan gynnwys cyflogeion, ymgynghorwr neu weithiwr asiantaeth, neu fyfyriwr ar leoliad) yr hawl i wneud a derbyn llungopi.
- Caiff claf neu gleient dderbyn un copi papur o ddeunydd trwyddedig sy'n berthnasol i'w cyflwr neu driniaeth
- Mae gan unrhyw Unigolyn a Awdurdodir gan GIG Cymru yr hawl i wneud a derbyn sgan neu gopi digidol cyhyd â bod y copïau hynny'n cael eu hanfon ac yn cael eu gweld drwy rwydwaith eich sefydliad

Bydd y term 'ymgynghorwyr' yn cynnwys hefyd yr aelodau hynny o Bwyllgor Dynodedig (nad ydynt fel arall yn Bersonau a Awdurdodir) pan fyddant yn gweithredu mewn perthynas â gweithgareddau'r Pwyllgor Dynodedig a Chynghorwyr Awdurdod Lleol.

5.0 Cadw deunydd a gopïwyd

- Caiff eich cyflogeion etc gadw Copïau Digidol ar eu gyriant caled lleol neu ofod personol ar y gweinydd.
- Yn ogystal caiff eich cyflogeion etc gadw copïau digidol (gan gynnwys yr unigolion trwyddedig hynny) ar unrhyw fewnrwyd y GIG yng Nghymru at ddefnydd defnyddwyr awdurdodedig am gyfnod o hyd at 30 o ddiwrnodau. Yna gellir lawrlwytho'r rhain a'u cadw'n lleol gan gyflogeion neu eu hargraffu neu eu hanfon ymlaen drwy ebost at gydweithwyr.

6.0 Canllawiau Copïo Penodol

Llungopïo - Mae'r Drwydded yn caniatáu llungopïo ystod eang iawn o gyhoeddiadau. Cewch gopïo holl gyhoeddiadau y DU, UDA a Thiriogaethau Mandad eraill (gweler y nodiadau) ar wahân i Weithiau wedi'u Heithrio a gweithiau mewn unrhyw Gategori Eithriedig (gweler y nodiadau)

Sganio – Mae'r drwydded yn caniatáu sganio amrywiaeth eang iawn o gyhoeddiadau.

Cewch wneud Copïau Digidol o'r holl weithiau print a gyhoeddir yn y DU, UDA a gwledydd eraill y mae'r CLA wedi cytuno

'Cyfnewid Repertoire Digidol' â hwy fel y'i rhestrir ar www.cla.co.uk ac a gaiff eu diweddaru o dro i dro ar wahan i Weithiau wedi'u Heithrio a gweithiau mewn unrhyw Gategori Eithriedig (gweler y nodiadau).

Copïo Digidol

- Cewch wneud Copïau Digidol o gyhoeddiadau a grëwyd ac a ddosbarthwyd yn electronig gan Gyhoeddwr Deunydd Digidol Cyfranogol (gweler nodiadau) ar wahan i Weithiau wedi'u Heithrio a gweithiau mewn unrhyw Gategori Eithriedig (gweler y nodiadau).

7.0 Dim Copïo yn Hytrach na Phwrcasu

Nid yw'r drwydded yn caniatáu i chi wneud copïau i'w defnyddio yn hytrach na phwrcasu'r cyhoeddiad gwreiddiol (boed brint neu ddigidol) yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, neu y gellid eu defnyddio yn lle comisiynu gwaith yn uniongyrchol oddi wrth artist neu awdur. Datblygwyd y drwydded hon i'ch helpu chi i wneud defnydd llawn o'r deunydd sydd eisoes yn eich meddiant.

8.0 Casglu Data

Mae'r GIG yng Nghymru yn talu ffi trwydded blynyddol i'r CLA, sydd (ar ôl tynnu costau CLA) yn cael ei ddosbarthu i'r awduron, artistiaid a'r cyhoeddwyr dan sylw.

Mae'r CLA yn defnyddio nifer o ddulliau i ddosbarthu ffi'r drwydded mor deg ag sy'n ymarferol heb osod baich gormodol ar y trwyddedai o ran adrodd. Er nad oes angen i chi gadw cofnod parhaus o'ch copïo, mae'n bosibl y bydd gofyn i chi o dro i dro gymryd rhan mewn ymarfer casglu data, megis cyflenwi gwybodaeth i CLA ar eich daliadau cyhoeddi neu ateb cwestiynau ar y copïo sy'n cael ei wneud dan eich trwydded.

9.0 Gwybodaeth Ychwanegol

Mae'r CLA yn cynhyrchu nifer o ddogfennau eraill i gefnogi'r drwydded a'i dehongliad. Mae fersiynau diweddaraf y dogfennau hyn ar gael ar wefan CLA: http://www.cla.co.uk/ a dylech edrych ar y fersiwn diweddaraf ar y wefan cyn copïo.

10.0 Nodiadau

Yn y canllawiau hyn, defnyddir rhai termau sydd ag ystyr arbennig.

Gwaith sydd wedi'i Eithrio
Gwaith sydd wedi'i Eithrio yw gwaith (megis llyfr, cyfnodolyn neu gylchgrawn) sydd wedi'i eithrio'n benodol o gwmpas ein trwydded ac felly na ellir ei gopïo heb ganiatâd uniongyrchol oddi wrth ddeiliad yr hawliau. Ceir rhestr ar http://www.cla.co.uk/excludedworks.php

Categori Eithriedig
Categori Eithriedig yw categori o waith (er enghraifft mapiau) sydd wedi'i eithrio'n benodol o gwmpas ein trwydded ac felly na ellir ei gopïo heb ganiatâd uniongyrchol oddi wrth ddeiliaid yr hawliau. Ceir rhestr ar http://www.cla.co.uk/cla.co.uk/excludedworks.php

Cyhoeddwr Defnydd Digidol Cyfranogol
Cyhoeddwr Defnydd Digidol Cyfranogol yw cyhoeddwr sydd wedi cytuno i gynnwys ei gyhoeddiadau digidol yn ein trwydded ddigidol. Ceir rhestr lawn o'r rhain ar http://www.cla.co.uk/list_included_works.php

Tiriogaeth Mandad
Tiriogaeth Mandad yw gwlad y mae CLA wedi llofnodi cytundeb â hi er mwyn cynnwys rhai cyhoeddiadau neu holl gyhoeddiadau'r wlad honno mewn trwyddedau CLA. Ceir rhestr o'r gwledydd hyn ar http://www.cla.co.uk/Mandating_overseas_terr.php

Bwriedir y ddogfen hon fel canllaw yn unig ac nid yw'n cymryd lle telerau trwydded y CLA eu hunain, y dylid eu darllen yn llawn. Pe bai anghydfod yn codi rhwng y ddau, y drwydded fyddai'r awdurdod terfynol.

Yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint
Saffron House, 6-10 Kirby Street, London, EC1N 8TS
Ffôn 020 7400 3100 Ffacs 020 7400 3101 Ebost cla@cla.co.uk www.cla.co.uk